Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol
Thanks to National Lottery players

CALON TAF

**calontaf.co.uk**

CalonTaf@rctcbc.gov.uk

## DARGANFOD PARC YNYSANGHARAD:

# Taith Trwy Amser a Choffadwriaeth

**Canllaw i Athrawon ar Ddysgu Gweithredol trwy Dreftadaeth a Choffadwriaeth**



**Mae Parc Coffa Ynysangharad yn ofod unigryw lle mae hanes, natur, hamdden, coffâd a chysylltiadau dynol yn dod ynghyd i roi profiad dysgu cyfoethog i'ch disgyblion.**

Mae'r canllaw yma'n cyd-fynd â'n pecynnau addysgol: **Barod am Gêm!** ac **Eco-Archwilwyr mewn Mannau Gwyrdd**

**CWRICWLWM I GYMRU**

**Mae'r adnodd yma wedi'i greu ar gyfer cam cynnydd 3, ond mae modd ei addasu i'w ddefnyddio ar gamau eraill.**

Parc Coffa YNYSANGHARAD
War Memorial Park
Pontypridd CF37 4PE

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg | You are welcome to communicate with us in Welsh

53089-22 • 2025

# HANES A THREFTADAETH Y PARC:

**Mae Parc Coffa Ynysangharad yn dyst i ysbryd a gweledigaeth gyfunol cymuned Pontypridd.**

Doedd y parc yma ddim yn rhodd gan gymwynaswr cyfoethog fel sawl parc arall tebyg, ond fe'i prynwyd trwy danysgrifiad cyhoeddus a chyfraniadau o Gronfa Les y Glowyr. Dyma enghraifft bwerus o bwrpas a rennir wrth i bobl leol, wedi'u hamgylchynu gan ddiwydiannau trwm a oedd yn effeithio ar eu hiechyd, gydnabod gwerth mannau gwyrdd, cyfleoedd hamdden a gweithgareddau chwaraeon.

Agorwyd y parc yn swyddogol ym 1923 gan Is-iarll Allenby, pennaeth llu Alldaith yr Aifft yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ychydig iawn y mae cynllun y parc wedi newid ers iddo agor gan gadw llawer o'i nodweddion gwreiddiol, gan ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer dysgu am hanes y parc a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

**Cliciwch yma i ddysgu rhagor o wybodaeth am hanes diddorol y parc:**
www.rctcbc.gov.uk/ParcCoffaYnysangharadPontypridd

**Mae chwaraeon wedi bod yn ddarpariaeth bwysig yn y parc erioed.**
I weld adnoddau dysgu ynglŷn â'r pwnc yma, bwriwch olwg ar 'Barod am Gêm!' Parc Coffa Ynysangharad: Canllaw i Athrawon ar Ddysgu Gweithredol trwy Dreftadaeth Chwaraeon'.

## Nodweddion Allweddol y Parc:

- **Cerflun Evan James a James James:**



Wedi'i chodi ym 1930, dyma gofeb i'r tad a'r mab a gyfansoddodd anthem genedlaethol Cymru, Hen Wlad Fy Nhadau / Land of My Fathers.

- **Cofebion Rhyfel:**



O'r dechrau, bwriad y parc oedd bod yn fan coffa. Y bwriad gwreiddiol oedd anrhydeddu'r rhai o Bontypridd a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ond mae bellach yn coffáu pobl leol a wnaeth yr aberth eithaf mewn gwasanaeth i'w gwlad.

- **Yr Ardd Isel:**



Adeiladwyd yr ardd isel ym 1923 ac fe'i dylanwadwyd gan ddyluniad tirwedd Eidalaidd.

- **Y Seindorf:**



Agorodd y seindorf ym 1926 ac mae'n tynnu sylw at rôl y parc fel canolbwynt diwylliannol sy'n ymestyn y tu hwnt i weithgareddau chwaraeon. Mae cerddoriaeth yn dal i gael ei chwarae yma.

- **Y Lido:**




Croesawyd yr ymwelwyr cyntaf i Lido Cenedlaethol Cymru, sydd mewn adeilad rhestredig gradd II, ar 30 Gorffennaf 1927. Cafodd yr adeilad ei adfywio a'i diweddaru yn 2015. Dyma'r unig lido awyr agored sy'n parhau i fod ar agor yng Nghymru.

# THEMÂU A PHYNCIAU

**Ers iddo agor, mae'r parc wedi hyrwyddo gwerth gofod cymunedol. Mae dysgu am y rhain yn cynnig cyfleoedd dysgu cyfoethog i'ch disgyblion.**

Gyda hyblygrwydd y cwricwlwm newydd, mae modd integreiddio amrywiaeth o brofiadau dysgu yn eich gwersi, gan sicrhau bod eich disgyblion yn elwa i'r eithaf ar eu hamser yn y parc, gyda digon o waith ystafell ddosbarth dilynol.

- **GWELEDIGAETH AC ANGERDD:**
  Pwysigrwydd pŵer cymunedol.
- **YSGYFAINT Y DREF:**
  Pwysigrwydd mannau agored ar gyfer iechyd a lles gweithwyr ar ddechrau'r 20fed ganrif.
- **PONTYPRIDD DIWYDIANNOL:**
  Cyn i'r diwydiannau glo a haearn ddatblygu, pentrefan bychan oedd Pontypridd. Ehangodd yn sylweddol wrth i nifer o lofeydd ddod yn ganolbwynt trafnidiaeth pwysig.
- **COFEBION RHYFEL:**
  Pwysigrwydd cofio, symbolaeth a choffáu.
- **NATUR - BIOAMRYWIAETH:**
  Newid yn yr hinsawdd a chynefin.
- **CYSYLLTIAD CYMUNEDOL:**
  Hanesion llafar. Ddoe a Heddiw Dyfodol y parc.

# CYNEFIN, CYMRU FYD-EANG A PHROFIADAU AMRYWIOL

**Er ei fod yn nodwedd amlwg yn y dirwedd leol, mae'r parc yn ficrocosm sy'n adlewyrchu cydgysylltiad Cymru a'r byd.**

Trwy ei bobl, treftadaeth chwaraeon, dylanwadau pensaernïol, gofodau coffaol, ac amgylcheddau naturiol, mae'r parc yn cynnig nifer o bynciau ar gyfer gwneud cysylltiadau byd-eang.

Drwy ategu eich archwiliadau drwy'r parc gydag ymchwil yn archifdy'r sir, y llyfrgell leol, ac adnoddau cymunedol, byddwch chi'n sicrhau bod eich disgyblion yn cael y profiad dysgu gorau posibl.

# SGIL A HER

**Mae pob gweithgaredd yn cynnig cyfres wahanol o heriau y gall y disgyblion eu harchwilio a'u trafod:**

- **AR GYFER PLANT IAU (9-11):**
  **Canolbwyntio ar hwyl a sgiliau sylfaenol.**
- **AR GYFER PLANT HŶN (12-14):**
  **Cyflwyno rheolau mwy cymhleth, annog meddwl strategol a chynnwys rhagor o gyd-destun hanesyddol.**

Gall pob gweithgaredd gael ei symleiddio neu ei wneud yn fwy heriol, yn dibynnu ar oedran y disgyblion.

## MANTEISION I ATHRAWON:

- Bodloni Cynefin
- Cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad (AOLE)
- Ennyn diddordeb disgyblion o bob gallu academaidd a chorfforol
- Datblygu ymwybyddiaeth a balchder yn hanes a threftadaeth yr ardal
- Addas i addysgu bob blwyddyn academaidd
- Dim angen unrhyw wybodaeth arbenigol gan yr athro/athrawes
- Addas i'w ddefnyddio i sefydlu cysylltiadau ag unigolion lleol

CALON TAF

# SYNIADAU A GWEITHGAREDDAU

## GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

- Mae'r parc yn gartref i amrywiaeth fawr o goed collddail a bytholwyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys coed derw Twrci, castanwydd, pilcoes y ddinas, derw bythwyrdd, helyg wylofus a chedrwydd Libanus.
- Mae gwrychoedd a gwelyau blodau'n hardd i edrych arnyn nhw, ond maen nhw hefyd yn gynefin gwych i adar, mamaliaid bychain, infertebratau a thrychfilod, lle gallan nhw gysgodi, bwydo a bridio.
- Mae bellach gan y parc sawl ardal heb eu torri, sef y parthau gwyllt. Mae'r rhain yn annog rhagor o amrywiaeth i ffynnu na pharthau mwy ffurfiol.

**Mae parthau ffurfiol ac anffurfiol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu sy'n cynnwys:**

- **Astudiaeth Bioamrywiaeth:**
  Adnabod a chofnodi gwahanol blanhigion ac anifeiliaid yn y parc, ac ymchwilio i ecosystem a chadwyni bwyd y parc.
- **Tywydd a Hinsawdd:**
  Arsylwi a chofnodi patrymau tywydd dros gyfnod o amser.
- **Tirwedd:**
  Deall cysyniadau fel erydiad, hindreulio a'r gylchred ddŵr, a thrafod newid hinsawdd a'i effaith ar ecosystem y parc.
  - Dogfennu tirweddau, pensaernïaeth a bywyd gwyllt y parc trwy ffotograffiaeth neu ffilm. Llunio traethawd llun neu ffilm fer sy'n arddangos hanfod y parc.

GWEITHGAREDD

### CAPSIWL AMSER COED

**Amcan:** Myfyrio ar etifeddiaeth y parc, deall cronoleg ac ystyried yr amgylchedd.
**Gweithgaredd:** Papur, peniau/pensiliau.

**Dywedwch wrth y disgyblion i sefyll o amgylch coeden benodol yn y parc.**
- Trafodwch oed y goeden, ei rôl yn yr amgylchedd ac fel cynefin.
- Ystyriwch yr hyn y mae wedi'i 'dystio' drwy gydol ei hoes.
- Gofynnwch i'ch disgyblion dynnu llun o'r goeden ac ysgrifennu neges o obaith ar gyfer dyfodol y parc.

## MATHEMATEG A RHIFEDD

- **Mesur ac Amcangyfrif:**
  Mesurwch bellteroedd, arwynebeddau a chyfeintiau yn y parc, megis maint ardaloedd penodol neu uchder coed. Amcangyfrifwch nifer y bobl sy'n defnyddio'r parc dros gyfnod o amser.
- **Geometreg:**
  Dadansoddwch y siapiau a'r patrymau sydd yng nghynllun a phensaernïaeth y parc.
- **Casglu a Dadansoddi Data:**
  Casglwch ddata ar ddefnydd y parc (sut mae pobl yn defnyddio'r parc, pa chwaraeon maen nhw'n eu chwarae, lle maen nhw'n ymlacio?). Dewch i gasgliadau ar dueddiadau o'r canfyddiadau.

GWEITHGAREDD

### HER DYLUNIO CYNLLUNWYR PARCIAU

**Amcan:** Deall y bwriadau y tu ôl i ddyluniad y parc a'i gysylltiad ag iechyd a lles.
**Deunyddiau:** Papur, peniau/pensiliau.

**Cyflwynwch y cysyniad o gynllunio trefol. Nid ymddangos dros nos wnaeth y parc - roedd wedi'i gynllunio'n ofalus i fanteisio i'r eithaf ar y gofod. Cafodd pob nodwedd, gan gynnwys pob coeden a llwyn, eu rhoi yno'n fwriadol i wneud i'r parc edrych yn ddeniadol ac i wneud y gorau o'r gofod oedd ar gael ar gyfer chwaraeon ac ymlacio.**
- Rhannwch y disgyblion yn grwpiau a gofyn iddyn nhw fapio'r parc, gyda'i nodweddion a'i lwybrau.

# SYNIADAU A GWEITHGAREDDAU

## Y DYNIAETHAU

- **Ymchwil Hanes Lleol:**
  Ymchwiliwch i hanes y parc, gan gynnwys ei sefydlu a'i rôl yn y gymuned. Ymchwiliwch i bobl ac achlysuron sy'n cael eu coffáu yng nghofebion y parc. Ewch ati i gyfweld trigolion lleol i gasglu hanesion llafar am y parc a'i arwyddocâd.
- **Treftadaeth Ddiwydiannol:**
  Archwiliwch y cysylltiad rhwng y parc a gorffennol diwydiannol Pontypridd. Ymwelwch â safleoedd treftadaeth ddiwydiannol cyfagos a'u cysylltu â hanes y parc.
- **Daearyddiaeth:**
  Crëwch fapiau o'r parc, gan amlygu nodweddion allweddol a thirnodau. Defnyddiwch gwmpawdau a mapiau ar gyfer gweithgareddau cyfeiriannu. Dadansoddwch dopograffeg y parc a'i effaith ar ddraenio a defnydd tir.
- **Datganiad yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA):**
  Ymchwiliwch i effaith amgylcheddol gweithgareddau dynol yn y parc ac o'i gwmpas. Aseswch rôl y parc wrth liniaru newid hinsawdd a hyrwyddo bioamrywiaeth. Datblygwch gynigion ar gyfer arferion cynaliadwy o fewn y parc.

GWEITHGAREDD

### LLAIS Y GYMUNED

**Amcan:** Casglu safbwyntiau ar y parc a'i rôl yn y gymuned heddiw.
**Deunyddiau:** Dyfeisiau recordio, ffurflenni caniatâd, cwestiynau cyfweliad.

**Gofynnwch i'r disgyblion baratoi cwestiynau am bwysigrwydd y parc, sut mae pobl yn ei ddefnyddio, a'u gobeithion ar gyfer ei ddyfodol.**
- Ewch ati i gyfweld pobl leol.
- Rhannwch eu canfyddiadau gyda'r ysgol neu mewn achlysur cymunedol.

## LLYTHRENNEDD AC IAITH

- **Ysgrifennwch gerddi, straeon neu ddramâu wedi'u hysbrydoli gan hanes, pobl neu nodweddion naturiol y parc.**
- **Datblygwch arwyddion rhyngweithiol neu baneli gwybodaeth ar gyfer y parc.**
- **Mae llythrennedd ac iaith yn rhan o bob gweithgaredd yn y pecyn yma.**

# SYNIADAU A GWEITHGAREDDAU

## CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

- **Celf a Dylunio:**
  Crëwch frasluniau, paentiadau, neu gerfluniau wedi'u hysbrydoli gan harddwch naturiol y parc. Defnyddiwch wrthrychau a ddarganfuwyd yn y parc (atgoffwch y disgyblion i ddewis brigau, dail neu flodau sydd eisoes wedi disgyn i'r llawr) i greu gosodiadau artistig neu gollage.
- **Dylunio a Phensaernïaeth:**
  Dadansoddwch elfennau dylunio ac arddulliau pensaernïol y parc. Dyluniwch nodweddion newydd neu welliannau ar gyfer y parc, gan ystyried ei gyd-destun hanesyddol ac anghenion presennol.

GWEITHGAREDD

### ANRHYDEDDU EIN HANTHEM

**Amcan:** Ennyn balchder diwylliannol trwy ddysgu anthem genedlaethol Cymru, hyrwyddo cynwysoldeb a chymuned ymhlith disgyblion amrywiol.
**Deunyddiau:** Geiriau'r anthem (dwyieithog), recordiad sain o'r anthem, offerynnau cerdd (dewisol).

**Ewch â'r disgyblion at gerflun Evan James a James James.**

- Egluro pwysigrwydd anthemau cenedlaethol.
- Anogwch y disgyblion i fyfyrio ynghylch ystyr y geiriau a grym y gerddoriaeth.
- Ewch i'r seindorf i ganu'r anthem. Anogwch nhw i ysgrifennu eu hanthem eu hunain.

## IAITH A LLYTHRENNEDD

- **Tywyswch y disgyblion ar daith gerdded ystyriol drwy'r parc, gan eu hannog i ganolbwyntio ar eu synhwyrau a'u hamgylchedd. Anogwch nhw i sylwi ar olygfeydd, synau, arogleuon a gweadau byd natur. Trafodwch sut mae hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo.**
- **Trafodwch fanteision ymarfer corff rheolaidd a bod y tu allan ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol.**
- **Bydd pob gweithgaredd yn y pecyn yma'n annog eich disgyblion i fwynhau'r awyr agored, waeth beth yw lefel eu gallu corfforol.**

## RHAGOR O WYBODAETH:


**Gwefan Parc Coffa Ynysangharad:**
**www.rctcbc.gov.uk/ParcCoffaYnysangharadPontypridd**

**Archifdy Morgannwg**
**www.glamarchives.gov.uk/cy**

**Llyfrgell Pontypridd:**
**www.rctcbc.gov.uk/LlyfrgellPontypridd**

**Archif Digidol Gwasanaethau Treftadaeth Rhondda Cynon Taf:**
**www.eintreftadaethrhct.com**

# COFEBION RHYFEL



## MEINI HANES:
## DEALL RHYFEL AC ABERTH

- Mae dysgu am y cofebion rhyfel yn y parc yn bwysig er mwyn sefydlu gwerthoedd coffa, diolchgarwch, empathi a dyletswydd ddinesig ymysg pobl ifainc.
- Mae cofebion yn helpu plant a phobl ifainc i gysylltu â'r gorffennol a deall yr aberth a wnaed gan y rhai a ymladdodd mewn gwrthdaro. Maen nhw'n atgof diriaethol o ddigwyddiadau hanesyddol a chost ddynol rhyfel.
- Mae astudio bywydau'r rhai sy'n cael eu coffáu yn helpu i ddatblygu empathi a thosturi at eraill, gan ddeall effaith rhyfel ar unigolion, teuluoedd a chymunedau.
- Gall cofebion annog disgyblion i feddwl am sut y gallan nhw gyfrannu at fyd mwy heddychlon a chyfiawn.

### Cydlyniant Cymunedol trwy Goffáu

- **Treftadaeth a gwerthoedd a rennir:**
  Mae cofebion rhyfel yn cynrychioli aberthau a gwerthoedd a rennir sy'n mynd y tu hwnt i wahaniaethau diwylliannol ac ethnig.
- **Gwrthdaro a'r unigolyn:**
  Gall clywed am wrthdaro yn y newyddion yn aml ein gwahanu oddi wrth ei effaith ar yr unigolyn a'i deuluoedd. Gall dysgu am bobl sydd wedi'u cofnodi ar y cofebion hybu empathi ar draws diwylliannau. Mae'n amlygu cyffredinolrwydd profiadau dynol ar adegau o wrthdaro a'r dyhead a rennir am heddwch.
- **Perthyn:**
  I drigolion mwy newydd, gall dysgu am y cofebion rhyfel a hanes lleol y bobl a enwir arnyn nhw eu helpu i deimlo'n fwy cysylltiedig â'u cartref newydd.
- **Dynoliaeth a rennir:**
  Mae cofebion rhyfel yn ein hatgoffa o freuder heddwch a phwysigrwydd cydweithio i atal gwrthdaro. Gweithiwch gyda'ch disgyblion i nodi gwerthoedd a dyheadau cyffredin i hyrwyddo ymdeimlad o undod a phwrpas.

**GWEITHGAREDDAU**

### Mapio Cofebion:
**Mapiwch leoliad y cofebion ar gynllun o'r parc.**
Archwiliwch y symbolau a ddefnyddir arnyn nhw, megis delweddau, arysgrifau neu elfennau artistig. Ewch ati i ddeall pam y cawson nhw eu gosod mewn mannau cyhoeddus o'r fath.

### Meini Hanes:
**Ymchwiliwch i rai o'r unigolion a goffwyd.**
Defnyddiwch bapurau newydd lleol ac archifau teulu a sir i olrhain unigolion. Anogwch fynegiant creadigol trwy gerddi, straeon byrion, gwaith celf, neu gyflwyniadau.

### Cae Blodau Pabi:
**Gofynnwch i bob plentyn wneud ac addurno pabi, pob un â neges bersonol arno.**
Arddangoswch y pabi yn y parc (gyda chaniatâd), yn yr ysgol neu mewn canolfan gymunedol leol.

# Cyngor i athrawon ar fynd â disgyblion i'r parc ac ar ddefnyddio'r daflen weithgaredd

## Mynd â disgyblion i'r parc

**Mae ymweld â'r parc yn brofiad cyffrous a hwyliog i'ch disgyblion ond mae'n bwysig gosod ffiniau clir gyda nhw cyn mynd allan.**

Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu i gael y gorau o'ch taith i'r parc.

- **DIOGELWCH:**
  Atgoffwch y disgyblion am reolau diogelwch sylfaenol, fel aros gyda'i gilydd, peidio â siarad â dieithriaid a gweiddi os ydyn nhw'n mynd ar goll. Cyflwynwch y disgyblion i staff y parc sydd yno i'ch helpu chi.
- **CYMORTH CYNTAF:**
  Dewch â phecyn ar gyfer mân anafiadau – gall anafiadau mân a chrafiadau ddigwydd wrth dreulio amser ym myd natur.
- **LLWYBRAU A MANNAU WEDI'U TOCIO:**
  Mae'n demtasiwn i redeg ym mhobman, ond mae'n bwysig cadw at lwybrau a mannau wedi'u tocio. Mae glaswellt hir a 'pharthau gwyllt' yn gartrefi i lawer o greaduriaid na ddylid tarfu arnyn nhw.
- **TRYSORAU BYD NATUR:**
  Mae'n iawn codi brigau, dail a blodau sydd eisoes wedi disgyn i'r llawr, ond dylen adael y rhai sydd heb yn eu lle er mwyn i bawb allu parhau i edmygu eu harddwch.
- **RHANNU'R GOFOD:**
  Bydd angen iddyn nhw gadw llygad am gerddwyr, rhedwyr a beicwyr.
- **PARCHU'R PARC:**
  Mae angen mynd â phob sbwriel yn ôl i'r ysgol neu ei roi mewn bin sbwriel.

## Taflen Weithgaredd

**Argraffwch y daflen weithgaredd dwyochrog ar gyfer pob un o'ch disgyblion cyn i chi ymweld â'r parc.**

- Mae'r daflen ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac mae fersiwn liw a fersiwn du a gwyn.
- Sicrhewch fod y disgyblion wedi torri'r petryal ar y dudalen cyn gadael yr ysgol er mwyn arbed mynd â siswrn i'r parc.
- Mae'n ddelfrydol ar gyfer dysgu rhyngweithiol am dreftadaeth y parc.

**Diolch am ddefnyddio'r pecyn yma i grwydro Parc Coffa Ynysangharad gyda'ch disgyblion. Gobeithio y cewch chi amser gwych yn darganfod ei ryfeddodau a chreu atgofion a fydd yn para am oes.**

# Detectifs Byd Natur

ym **MHARC COFFA YNYSANGHARAD**

CALON TAF

RHONDDA CYNON TAF

Torra'r petryal yma ar hyd y llinell doredig

## HER DYLUNWYR PARC

### Oeddet ti'n gwybod?

Mae popeth yn y parc yma wedi'i gynllunio'n ofalus! Mae'r llwybrau rwyt ti'n eu defnyddio, y coed a'r blodau, hyd yn oed y caeau chwaraeon i gyd wedi'u cynllunio i wneud y parc yn hardd ac i sicrhau bod digon o le i bopeth.

### Fframio dy farn...

Gadewch i ni edrych ar y parc fel artist!

- Dalia'r ddalen yma i fyny yn agos at dy lygad (tua 10cm i ffwrdd) fel bod modd gweld trwy'r siâp petryal bach.
- Tro o gwmpas yn araf nes i ti ddod o hyd i olygfa rwyt ti'n hoff ohoni.
- Tynna lun o'r hyn rwyt ti'n ei weld y tu mewn i'r petryal yn y gofod nesaf ato.

**Pam dewisais di'r olygfa yma? Beth oedd yn ei gwneud yn arbennig i ti?**

## COFLEIDIO COEDEN!

### Faint ohonoch chi sydd eu hangen i gofleidio coeden?

Gweithia gyda dy ffrindiau a dod o hyd i rai coed sy'n ddiogel ac yn hawdd mynd atyn nhw (paid â chamu ar unrhyw welyau blodau neu ardaloedd gwyllt!).

Pa goeden sydd angen y nifer mwyaf ohonoch chi i'w hamgylchynu?

- **Faint ohonoch chi gofleidwyr coed gymerodd hi i amgylchynu'r goeden fwyaf y daethoch chi o hyd iddi?**
- **Faint o goed y gwnaethoch chi eu cofleidio cyn dod o hyd i'r un mwyaf?**

### Safa'n llonydd a gwrando'n astud... mae'r parc yn llawn synau!

Mae rhai yn cael eu gwneud gan natur (fel adar, anifeiliaid, neu wynt) a rhai yn cael eu gwneud gan fodau dynol (fel siarad, gweiddi, neu redeg) neu o bethau mae bodau dynol wedi'u gwneud (fel pêl griced yn taro ystlum, ceir neu awyrennau ). Edrych i weld a elli di glywed tair sain naturiol a thair sain ddynol. Noda nhw isod:

| | **Seiniau byd natur** | | **Seiniau dynol** |
|---|---|---|---|
| 1 | | 1 | |
| 2 | | 2 | |
| 3 | | 3 | |

53089-22 • 2025

# Detectifs Byd Natur

ym **MHARC COFFA YNYSANGHARAD**

## GOLYGFA O SAFBWYNT ADERYN

### Hedfan dros y Parc!

- **Dychmyga:** Cau dy lygaid a dychmygu dy hun fel aderyn yn esgyn yn uchel uwchben Parc Coffa Ynysangharad. Lledaena dy adenydd a theimlo'r gwynt o dan dy blu.
- **Sylwa:** Pa olygfeydd rhyfeddol fyddet ti'n eu gweld o'r fan honno? Y llwybrau troellog? Y dŵr pefriog? Yr adeiladau mawreddog a'r ardaloedd chwaraeon?
- **Teimla:** Sut deimlad yw hedfan yn rhydd, gan edrych i lawr ar y byd isod? Wyt ti'n gyffrous, yn heddychlon, neu efallai ychydig yn benysgafn?
- **Disgrifia:** Nawr, agora dy lygaid a gafael yn dy bensil. Ysgrifenna ddisgrifiad byr neu gerdd am dy olygfa o safbwynt aderyn dros y parc.

**Dechreua ysgrifennu gyda geiriau fel y rhain:**

- 'Wrth i fi esgyn uwchben y parc, sylwais ...'
- 'Teimlais y gwynt yn fy mhlu wrth edrych i lawr a gweld...'
- 'Roeddwn i mor uchel, roedd y parc yn edrych fel...'

**Dy stori/cerdd:**

## CRAFFU AR FYD NATUR!

Rwyt ti wedi gweld y parc fel tirwedd ac o safbwynt aderyn, nawr gadewch i ni agosáu at natur.

- **Dod o hyd i dy fan:** Dewisa ddarn o dir sy'n dal dy lygad. Gallai fod yn ardal laswelltog, yn ddarn o bridd, neu hyd yn oed yn fan creigiog.
- **Fframia dy farn:** Rho'r daflen weithgaredd yma ar y ddaear, gan wneud yn siŵr bod y petryal torri i ffwrdd dros dy ddewis fan.
- **Sylwa'n ofalus:** Cymera eiliad i edrych o ddifrif ar yr hyn sy'n digwydd y tu mewn i'r petryal. Pa fanylion bach wyt ti'n eu gweld? Dail siâp gwahanol? Cerrig lliwgar? Pryfed prysur?
- **Tynna lun o dy fyd bach:** Yn y gofod nesaf at y petryal, tynna lun manwl o bopeth rwyt ti'n ei weld drwy'r twll. Ceisia arddangos y gweadau a'r siapiau mor gywir ag sy'n bosibl. Defnyddia bensiliau lliw os oes gen ti rai!

**Torra'r petryal yma ar hyd y llinell doredig**

53089-22 • 2025